# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 4 MAI, 2021

## CYNHALIWYD Y CYFARFOD DROS ZOOM

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | Cyng. Mark Davies (cadeirydd) | Cyng. Owenna Davies |
| | Cyng. Emyr Jones | Cyng. Ceri Jones |
| | Cyng. Llŷr Evans | Cyng. Maldwyn Lewis |
| | Cyng. Roger Davies | Cyng. Teifi Evans |
| | Cyng. Sharon Thomas | |

**Ymddiheuriadau** Cyng. Evan John Jones, Cyng. Ceri Jones,

**Clerc** Margaret Jones

| Eitem ar yr Agenda | | Gweithredu | Gan bwy | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ymddiheuriadau | Cafwyd ymddiheuriadau gan Gyng Evan John Jones, Cyng. Ceri Jones.<br>Yn ogystal, cafwyd llythyr gan Gyng Evan John Jones yn nodi ei fod yn ymddiswyddo o'r Cyngor. Diolchodd yr holl Gynghorwyr iddo am ei waith dros ddegawdau lawer. Trefnir bod Tystysgrif diolch yn cael ei chyflwyno iddo yn y dyfodol. Bydd y Clerc yn cysylltu â Mrs. Jones, gan ofyn iddi am sawl blwyddyn yr oedd wedi gwasanaethu ar y Cyngor, a threfnu bod Tystysgrif yn cael ei hargraffu gan E.L. Jones, Argraffwyr, Aberteifi. | | |
| 2 | Datgelu Buddiannau | Gofynnodd y Clerc a oedd angen iddi ddatgelu budd ynghylch un o'r ceisiadau cynllunio – A210384 Crymant, Brongest gan bod yr ymgeiswyr yn aelodau blaenorol o bwyllgor Cylch Meithrin Y Llewod Bach ac mae'r Clerc yn ymwneud gyda'r Cylch Meithrin hwn hefyd. Trafodwyd y mater a phenderfynwyd y dylai'r Clerc lenwi Ffurflen Datgelu Budd. | | |
| 3 | Cofnodion cyfarfod mis Ebrill | Roedd pob Cynghorydd wedi cael copi o gofnodion cyfarfod mis Ebrill a chofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Mai 2019.<br><br>**<u>Materion yn Codi</u>** –<br><br>**P.C.S.O.** – Roedd y Clerc wedi cysylltu â PCSO Anwen Davies gan nodi dyddiadau'r cyfarfodydd, ond nid oedd wedi cael ateb. Bydd y Clerc yn anfon neges e-bost yn nodi dyddiadau'r cyfarfodydd a gynhelir yn y dyfodol.<br><br>**Fan Cyflymder Diogelu Cymru** – Roedd y Clerc wedi cysylltu â Heddlu Dyfed-Powys ynghylch pa mor gyflym y mae cerbydau yn teithio trwy bentrefi Ffostrasol a Rhydlewis. Cafwyd ymateb mewn neges e-bost yn nodi y byddai rhywun yn cysylltu â'r Clerc ac y byddai gwaith goruchwylio yn cael ei wneud yn y ddau bentref er mwyn darganfod a fyddai modd lleoli Fan Gwylio Cyflymder Diogelu Cymru yn y pentrefi. | | |

| | | |
|---|---|---|
| | | Yn ogystal, bu Cynghorwyr yn trafod y posibilrwydd o osod arwyddion cyflymder sy'n fflachio yn y pentrefi – bydd y Clerc yn anfon llythyr at Gyng. Tom Delph-Janiuerk.<br>Cadarnhaodd y Clerc hefyd ei bod hi wedi cael galwad ffôn gan swyddfa Ben Lake ar 16.4.21 yn cadarnhau eu bod wedi cael copïau o lythyrau ynghylch y ddamwain pan darodd tractor yn erbyn tŷ yn Rhydlewis. Byddent yn adrodd yn ôl i'r Cyngor Cymuned gydag unrhyw ddiweddariad cyn gynted ag y bo modd. |
| 4. | Cadarnhau Cofnodion | Cynigiodd Cyng. Roger Davies bod cofnodion cyfarfod mis Ebrill yn gywir, eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Teifi Evans ac roedd pawb a oedd yn bresennol yn cytuno. |
| 5. | Cadarnhau cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2019 | Ystyriwyd Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2019 ac nid oedd unrhyw faterion yn codi. |
| 6. | Ethol Swyddogion 2021-22 | **Cadeirydd** – **Cyng. Emyr Jones**<br>Cynigiwyd gan Owenna Davies; eiliwyd gan Teifi Evans ac roedd pawb yn cytuno.<br>O ganlyniad i'r ffaith nad oes gan Gyng. Emyr Jones gyfleuster band eang da iawn, cytunodd Cyng. Mark Davies gynorthwyo yn ystod y cyfnod pan gaiff cyfarfodydd eu cynnal dros Zoom o hyd.<br><br>**Is-Gadeirydd** – **Cyng. Maldwyn Lewis**<br>Cynigiwyd gan Gyng. Mark Davies, eiliwyd gan Gyng. Owenna Davies ac roedd pawb yn cytuno.<br><br>**Swyddog Ariannol – Y Clerc**<br><br>**Archwilydd Mewnol** – awgrymodd Cyng. Maldwyn Lewis enw Gwyn Jones. Bydd y Clerc a Chyng. Maldwyn Lewis yn drafftio llythyr swyddogol i'w gyflwyno i Mr Gwyn Jones yn bersonol.<br><br>**Cymdeithas Cyfeillion Ysbyty Aberteifi** – dywedodd Cyng. Julie Davies nad oedd yn dymuno cyflawni rôl yr unigolyn cyswllt ar gyfer Cyngor Cymuned Troedyraur mwyach. Trafodwyd y mater a derbyniodd Cyng. Sharon Thomas y byddai ei henw hi yn cael ei anfon ymlaen fel yr unigolyn cyswllt newydd ar gyfer Cyngor Cymuned Troedyraur. |
| 7. | Adroddiad y Cynghorydd Sir | Adroddodd Cyng. Maldwyn Lewis y byddai system cynllun traffig newydd yn cael ei gweithredu yn Aberteifi yn y dyfodol agos. Dywedodd hefyd y byddai rheolau newydd yn dod i rym yn fuan ac y byddai mwy o leoliadau yn cael yr hawl i agor. Byddai modd cael 30 o westeion mewn priodasau nawr. Mae modd gweld yr holl reolau newydd ar wefan Cyngor Sir Ceredigion.<br><br>Nododd hefyd bod gwaith wedi cael ei wneud i osod wyneb newydd ar y ffordd yng Nghoed-y-bryn ac ym Mhenrhiw-pâl. |

Roedd Arolygiaeth Gofal Cymru yn cynnal archwiliad o Wasanaethau Cymdeithasol a Gofal yng Ngheredigion – nodir y rhif ffôn ar wefan Cyngor Sir Ceredigion.

8. Gohebiaeth

Roedd **C.Ff.I Troedyraur** wedi anfon llythyr yn gofyn am gymorth ariannol. Anfonir ffurflen ymgeisio am grant ymlaen at ysgrifennydd y clwb C.Ff.I. **Clerc**

**Un Llais Cymru** – Dylai rhestr o'r cyrsiau newydd fod ar gael unwaith eto yn fuan ac anfonir y rhestr ymlaen at yr holl Gynghorwyr cyn gynted ag y bydd y Clerc yn ei chael. Cynghorir Cynghorwyr i fynychu'r cyrsiau ar-lein os oes modd. **Clerc**

**Gwasanaeth Galar Cruse** – Cadarnhaodd y Clerc bod derbynneb sy'n nodi'r cyfeiriad cywir bellach wedi cyrraedd er mwyn cyfrannu.

**Un Llais Cymru** – cafwyd neges e-bost a oedd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch y COD CEFN GWLAD – adroddodd y Clerc ei bod hi wedi llwyddo i argraffu 'cod cryno byr' ac awgrymodd y byddai modd gosod y rhain yn yr hysbysfyrddau ym mhob pentref. Roedd y Cynghorwyr yn cytuno a bydd y Clerc yn eu gosod yn yr hysbysfyrddau pan fydd yn gosod yr Agenda nesaf. **Clerc**

**Cerflun Cranogwen** – cafwyd llythyr mewn neges e-bost a oedd yn ceisio cymorth ariannol er mwyn creu cerflun o Granogwen. Trafodwyd y mater ac roedd pawb yn cytuno bod Cranogwen yn fenyw bwysig iawn yn yr ardal leol, ac roedd pob Cynghorydd yn cytuno y dylid cefnogi'r achos hwn. Cynigiodd Cyng. Owenna Davies y dylid rhoi £200, eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng. Maldwyn Lewis ac roedd pawb yn cytuno.

9. Cynllunio

**A210315** – Calderbrook Lodge – trafodwyd y mater yn fanwl a gofynnwyd a oes angen adeilad newydd gan bod digon o adeiladau gwag ar y safle, y byddai modd eu defnyddio. Adroddir hyn yn y sylwadau cyffredinol ar system Cynllunio CLIC. **Clerc**

**A210316** – Calderbrook Lodge – trafodwyd y mater a gofynnwyd a yw Sefydliad Marchogaeth yn cael ei gynnwys dan feini prawf Tan 6. Adroddir hyn yn y sylwadau cyffredinol ar system Cynllunio CLIC. **Clerc**

**A210345** – Bach y Rhew – 2 pod glampio. Roedd pob Cynghorydd yn cefnogi'r cais hwn. Sylw cyffredinol i'w gynnwys ar system Cynllunio CLIC – Mae'n hyrwyddo busnes lleol; gall pobl leol aros oddi cartref am wyliau byr (gwyliau gartref) a byddai busnesau lleol yn elwa. **Clerc**

**A210361** – Maesffynnon – cefnogi heb unrhyw wrthwynebiadau **Clerc**

**A210384 –** Crymant – Meithrinfa. Roedd pawb yn cytuno ac nid oedd unrhyw wrthwynebiadau. Trafododd y Cynghorwyr y mater, a gan eu bod yn defnyddio adeilad sy'n bodoli eisoes, y gobaith yw y byddai'r busnes yn hyfyw. **Clerc**

| | | |
|---|---|---|
| 10. | Ariannol | Ymchwiliad Archwilio – dim newyddion.<br>Gorchymyn Banc – adroddodd y Clerc ei bod hi wedi siarad gyda llinell gymorth NatWest ac y dywedwyd wrthi bod modd ychwanegu manylion llofnodwyr ar-lein. Bydd y Clerc yn ymchwilio i hyn ac yn adrodd yn ôl yn ystod y cyfarfod nesaf.<br><br>**Taliadau** CThEM - £42.40<br>Cyflog y Clerc - £170.00<br>Ashmole & Co., - £78.00<br>Ad-dalu'r Clerc - £39.57<br>Aelodaeth Un Llais Cymru - £225.00<br>Cerflun Cranogwen - £200.00<br>Yswiriant BHIP - £823.21<br><br>O ran Yswiriant BHIP – cadarnhaodd y Clerc ei bod hi wedi llwyddo mewngofnodi ar-lein a bod y cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth a'r rhifau ffôn cyswllt wedi cael eu diwygio.<br><br>Bydd Cynghorwyr Roger Davies ac Emyr Jones yn llofnodi'r sieciau uchod i'w talu. Bydd y Clerc yn cysylltu gyda nhw am lofnodwyr.<br><br>Bydd y Clerc yn anfon gwybodaeth am y balans yn y banc ymlaen at yr holl Gynghorwyr cyn cyfarfod mis nesaf. **Clerc** |
| 11. | Materion Ardal | **Cau Ffordd** – Bydd y ffordd ar y gau ym Maesllyn (trwsio'r bont) am 3 wythnos gan gychwyn ar 31 Mai.<br><br>Credir bod siop y pentref yn Ffostrasol wedi cael ei gwerthu.<br><br>Gofynnodd Cyng. Teifi Evans a fyddai modd anfon llythyr llongyfarch at Mrs. Thomas, Llangynllo gan bod dau o'i hwyrion wedi cael eu dewis i chwarae Rygbi i'r Scarlets. **Clerc**<br><br>**Cinio Blynyddol** – Awgrymodd Cyng. Owenna Davies y byddai modd trefnu cinio blynyddol nawr gan bod hawl gan leoliadau agor. Trafodwyd hyn a phenderfynwyd dewis La Calabria fel y lleoliad. Cynigiodd Cyng. Owenna Davies gysylltu â La Calabria i drafod dyddiadau a chysylltu gyda'r Clerc. Hysbysir yr holl Gynghorwyr o'r trefniadau. **Clerc** |
| 12. | Lleoliad y Cyfarfod | Am y tro, bydd cyfarfodydd yn parhau dros Zoom, ond adolygir hyn bob mis. |
| 13. | Cyfarfod Nesaf | Cynhelir y cyfarfod nesaf ar NOS FAWRTH, 1 MEHEFIN 2021 am 7.30 p.m., unwaith eto dros Zoom.<br><br>Diolchodd Cyng. Maldwyn Lewis i Gyng. Mark Davies am ei holl waith caled fel Cadeirydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf, yn enwedig yn ystod cyfnod heriol o ganlyniad i Covid. Roedd yr holl Gynghorwyr yn cytuno a diolchwyd i Gyng. Mark Davies.<br><br>Gan nad oedd unrhyw faterion eraill i'w trafod, caeodd y Cadeirydd y cyfarfod am 10.15 p.m. |

| | | |
|---|---|---|
| 14. | Eitemau ar gyfer y Cyfarfod Nesaf | Ymddiheuriadau<br>Datgelu Budd<br>Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf<br>Cadarnhau Cofnodion<br>Adroddiad y Cynghorydd Sir<br>Gohebiaeth<br>Cynllunio<br>Cyllid – Archwiliad<br>Gorchymyn/Llofnodwyr<br>Taliadau<br>Cynllunio cyllideb<br>Materion Ardal<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf |
| 15. | Cyfarfod Nesaf | **NOS FAWRTH, 1 MEHEFIN, 2021 am 7.30 p.m. dros ZOOM** |